**Adroddiad i'r:** Cyngor

**Dyddiad y Cyfarfod:** 23 Mai 2017

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd; y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad; Alan Smith, Pennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes

**Awdur yr Adroddiad:** Carol Evans, Tîm Cynllunio Strategol

**Teitl:** Dogfen Cyflawni Flynyddol 2017-2018

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Mae'r adroddiad yn cyflwyno Dogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer Ebrill 2017 a Mawrth 2018 (sydd yn cynnwys y cyfnod pontio rhwng diwedd Cynllun Corfforaethol 2012-2017 a'r Cynllun Corfforaethol 2017-2022 newydd.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Mae angen penderfyniad i gymeradwyo fersiwn terfynol o Ddogfen Gyflawni Flynyddol, sydd ynghlwm yn **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Argymhellir bod yr Aelodau'n cymeradwyo drafft terfynol y Ddogfen Gyflawni er mwyn galluogi iddo gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi.

**4. Manylion yr adroddiad**

4.1 Caiff Dogfen Gyflawni ei chreu ar gyfer pob blwyddyn o'r Cynllun Corfforaethol. Ei bwrpas yw amlinellu rhai o'r prosiectau allweddol a fydd yn cael eu cychwyn a / neu eu dosbarthu yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau, gyda'r bwriad o ddangos sut y mae'r Cynllun Corfforaethol yn effeithio ar y gwaith rydym yn ei wneud. Bydd y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn cael ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

4.2 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2012 – 2017 bellach wedi dod i ben, ac mae etholiadau Cyngor Sir ym Mai wedi arwain at dîm newydd o aelodau etholedig a fydd yn ffurfio Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2017 – 2022. Mae 2017 yn flwyddyn o drawsnewid.

4.3 Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r cyfnod pontio rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018 (o fewn y cyfnod hwn byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol newydd), ac mae'n egluro sut y byddwn yn parhau i ddarparu cynnydd mewn perthynas â'n blaenoriaethau blaenorol.

4.4 Yn ogystal â gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni’r hyn a ddywedasom yn ein Cynllun Corfforaethol diweddar, a pharatoi ar gyfer Cynllun Corfforaethol newydd, byddwn yn cefnogi’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth ddatblygu ei Amcanion Lles newydd.

4.5 Mae'r gweithgareddau a amlygir yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol wedi’u cynllunio i gael effaith gadarnhaol ar ein Blaenoriaethau Corfforaethol a lles y gymuned. Maent yn cynnig y prif brosiectau a gweithgareddau y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn eu cyflawni yn y deuddeg mis nesaf.

4.6 Mae'r gweithgareddau yn deillio o Gynlluniau Gwasanaethau a Rhaglenni. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Cabinet drwy ein Adroddiadau Perfformiad Chwarterol. Bydd arfarniad cyffredinol o gynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a gyhoeddir bob mis Hydref.

4.7 Bydd ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2017-2022 yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2017.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn nodi'r gweithgaredd y mae'r cyngor wedi’i gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol (Cynllun Corfforaethol 2012-2017) ac i baratoi ar gyfer blaenoriaethau newydd Cynllun Corfforaethol 2017-2022.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Roedd Cynllun Corfforaethol 2012-2017 yn cynnwys strategaeth ariannol pum mlynedd a oedd yn amlinellu y buddsoddiad cyfalaf a ragwelir sydd ei angen i gyflawni'r blaenoriaethau. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys rhan am oblygiadau terfynol ar gyfer 2017 a’r cynlluniau ar gyfer Cynllun Corfforaethol newydd 2017-2022.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho’r adroddiad Asesiad o Effaith ar Les o'r wefan a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Cynhaliwyd asesiad o effaith y Cynllun Corfforaethol ar Gydraddoldeb a chafodd ei gyflwyno i’r Cyngor ar 9 Hydref 2012.

7.2 Mae Asesiad o Effaith ar Les wedi cael ei gynnal i gyd-fynd â’r Ddogfen Gyflawni Flynyddol; mae effaith gadarnhaol wedi’i nodi ar gyfer chwech o’r saith Nod Lles. **Gweler Atodiad 2.** Mae’r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn cynnwys gwybodaeth gan bob Gwasanaeth o fewn y Cyngor drwy eu Cynlluniau Busnes Gwasanaeth; dylai Asesiad o Effaith ar Les fod wedi'i gynnal ar bob gweithgaredd a bydd Penaethiaid Gwasanaeth wedi ystyried effaith gweithgareddau unigol er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith andwyol anghymesur ar bobl sy’n rhannu nodweddion a ddiogelir.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol wedi cael ei ddatblygu o weithgaredd a nodwyd o'r Cynlluniau Gwasanaeth ar gyfer 2017-2018 (y cytunwyd arnynt gydag Aelodau Arweiniol) ac o Gynlluniau Rhaglen. Mae gweithgareddau wedi'u diffinio a'u mireinio ymhellach drwy drafodaethau gyda phersonél allweddol sy'n ymwneud â'r gwaith o'u cyflawni. Cafodd drafft ei ddosbarthu i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ar gyfer sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-2017 yn nodi ein blaenoriaethau uchelgeisiol, ond posibl, ar gyfer y cyfnod pum mlynedd. Mae'r cyllid i gyflwyno cynllun buddsoddi o £132.5m wedi ei sicrhau ac felly mae modd cyflawni'r blaenoriaethau yn ariannol. Cafodd £40.3miliwn ei wario rhwng 2011-2012 a 2015-2016, a disgwylir y bydd £20miliwn yn cael ei wario yn 2016-2017 a £22.5miliwn yn 2017-2018. Mae'r Cyngor wedi cynnal y flaenoriaeth o gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol tra'n gorfod gwneud arbedion mewn mannau eraill o tua £30m yn ystod y cyfnod hynny. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn gadarn yn ariannol ac yn ariannu'n llawn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risg benodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na fyddai'r cyngor yn gallu cyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

## 11. Grym i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sy'n cael ei gefnogi gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.